

Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru)

[DRAFFT YMGYNGHORI]

CYNNWYS

RHAN 1

PARTNERIAETH GYMDEITHASOL

- 1 Dyletswydd partneriaeth gymdeithasol
- 2 Adroddiadau partneriaeth gymdeithasol
- 3 Dehongli Rhan 1

RHAN 2

GWAITH TEG

- 4 Nod gwaith teg
- 5 Dyletswydd gwaith teg Gweinidogion Cymru
- 6 Adroddiadau gwaith teg

RHAN 3

CAFFAEL CYHOEDDUS CYMDEITHASOL GYFRIFOL

PENNOD 1

CYFLWYNIAD

Cysyniadau allweddol

- 7 Contractau cyhoeddus
- 8 Awdurdodau contractio
- 9 Caffael cyhoeddus

PENNOD 2

DYLETSWYDD CAFFAEL CYMDEITHASOL GYFRIFOL

Y ddyletswydd caffael cymdeithasol gyfrifol

- 10 Dyletswydd caffael cymdeithasol gyfrifol
- 11 Dyletswydd caffael cymdeithasol gyfrifol: contractau adeiladu mawr
- 12 Dyletswydd caffael cymdeithasol gyfrifol: contractau allanoli gwasanaethau

Cymalau gweithiau cyhoeddus cymdeithasol

- 13 Cymalau gweithiau cyhoeddus cymdeithasol mewn contractau adeiladu mawr

- 14 Cymalau gweithiau cyhoeddus cymdeithasol mewn is-gontractau
15 Cymalau gweithiau cyhoeddus cymdeithasol: hysbysu Gweinidogion Cymru
16 Cymalau gweithiau cyhoeddus cymdeithasol: ymateb Gweinidogion Cymru
17 Cymalau gweithiau cyhoeddus cymdeithasol: contractau Gweinidogion Cymru
Cymalau gweithlu cyhoeddus cymdeithasol a chod ymarfer allanoli gwasanaethau cyhoeddus
18 Y cod allanoli gwasanaethau cyhoeddus a'r gweithlu
19 Cymalau gweithlu cyhoeddus cymdeithasol mewn contractau allanoli gwasanaethau
20 Cymalau gweithlu cyhoeddus cymdeithasol mewn is-gontractau
21 Cymalau gweithlu cyhoeddus cymdeithasol: hysbysu Gweinidogion Cymru
22 Cymalau gweithlu cyhoeddus cymdeithasol: ymateb Gweinidogion Cymru
23 Cymalau gweithlu cyhoeddus cymdeithasol: contractau Gweinidogion Cymru
Strategaethau caffael
24 Strategaeth gaffael

PENNOD 3

ADRODD AC ATEBOLRWYDD

- 25 Adroddiadau caffael cymdeithasol gyfrifol blynyddol
26 Cofrestr gontractau
27 Ymchwiliadau caffael
28 Adroddiad blynyddol Gweinidogion Cymru ar gaffael cyhoeddus

PENNOD 4

CYFFREDINOL

- 29 Canllawiau
30 Rheoliadau
31 Dehongli Rhan 3

RHAN 4

Y CYNGOR PARTNERIAETH GYMDEITHASOL

Ei sefydlu a'r weithdrefn

- 32 Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol Cymru
33 Cynrychiolwyr cyflogwyr
34 Cynrychiolwyr undebau llafur
35 Enwebu aelodau penodedig
36 Cyfnod penodiadau
37 Cyfarfodydd, gweithdrefnau a chymorth gweinyddol
38 Is-grwpiau
39 Is-grŵp caffael

Swyddogaethau

- 40 Darparu gwybodaeth a chyngor i Weinidogion Cymru
41 Darparu gwybodaeth a chyngor i'r CPG gan yr is-grŵp caffael
42 Cyhoeddi gwybodaeth a chyngor

Dehongli

43 Dehongli Rhan 4

RHAN 5

DARPARIAETHAU TERFYNOL

44 Dehongli cyffredinol

45 Dod i rym

46 Enw byr

Atodlen – Awdurdodau contractio

Rhan 1 – Awdurdodau contractio

Rhan 2 – Cymalau gweithlu cyhoeddus cymdeithasol: Awdurdodau sydd wedi eu hesemptio

Rhan 3 – Dehongli

Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru)

[DRAFFT YMGYNGHORI]

Deddf gan Senedd Cymru i wneud darpariaeth ynghylch cyrff cyhoeddus yn ymgynghori ag undebau llafur wrth gymryd camau penodol sy'n ymwneud ag ymgymryd â datblygu cynaliadwy; Gweinidogion Cymru yn gweithredu er mwyn ymgynghori at nod gwaith teg wrth ymgymryd â datblygu cynaliadwy; awdurdodau contractio yn cyfrannu at ddatblygu cynaliadwy a'r nod gwaith teg wrth iddynt ymgymryd â chaffael cyhoeddus; sefydlu Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol Cymru i ddarparu gwybodaeth a chyngor i Weinidogion Cymru ar faterion penodol; ac at ddibenion cysylltiedig.

Gan ei fod wedi ei basio gan Senedd Cymru ac wedi derbyn cydsyniad Ei Mawrhydi, deddfir fel a ganlyn:

RHAN 1

PARTNERIAETH GYMDEITHASOL

1 Dyletswydd partneriaeth gymdeithasol

- Wrth ymgymryd â datblygu cynaliadwy, pan fo corff cyhoeddus yn gwneud y pethau a nodir yn is-adran (2) rhaid iddo, i'r graddau y bo'n rhesymol, ymgynghori â'i undebau llafur cydnabyddedig.
- Y pethau y cyfeirir atynt yn is-adran (1) yw –
 - gosod amcanion llesiant o dan adran 3(2)(a) o DLICD 2015;
 - gwneud penderfyniadau o natur strategol ynghylch y camau rhesymol y mae'r corff yn eu cymryd (wrth arfer ei swyddogaethau) i gyflawni'r amcanion hynny o dan adran 3(2)(b) o DLICD 2015.
- Wrth ymgynghori o dan is-adran (1), rhaid i gorff cyhoeddus, i'r graddau y bo'n rhesymol –
 - dechrau'r ymgynghoriad yng nghyfnod ffurfiannol y broses o osod amcanion neu o wneud penderfyniadau,
 - ceisio cyfaddawd a chonsensws, ac
 - rhoi sylw i unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru ynghylch ymgynghori ag undebau llafur cydnabyddedig.
- Rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â Chyngor Partneriaeth Gymdeithasol Cymru cyn cyhoeddi unrhyw ganllawiau y cyfeirir atynt yn is-adran (3)(c).
- At ddibenion is-adran (1), mae i "datblygu cynaliadwy" yr ystyr a roddir gan adran 2 o DLICD 2015.

2 Adroddiadau partneriaeth gymdeithasol

- (1) Rhaid i gorff cyhoeddus lunio, mewn cysylltiad â phob blwyddyn ariannol, adroddiad ynglŷn â'r hyn y mae wedi ei wneud i gydymffurfio â'r ddyletswydd a osodir o dan adran 1(1).
- (2) Rhaid cytuno ar yr adroddiad gydag undebau llafur cydnabyddedig y corff cyhoeddus neu rhaid i'r adroddiad gynnwys datganiad yn egluro pam na chytunwyd arno.
- (3) Rhaid i'r corff cyhoeddus gyhoeddi'r adroddiad, a'i gyflwyno i Gyngor Partneriaeth Gymdeithasol Cymru, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol.
- (4) Pan mai Gweinidogion Cymru yw'r corff cyhoeddus, rhaid iddynt osod yr adroddiad gerbron y Senedd cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol.

3 Dehongli Rhan 1

Yn y Rhan hon –

mae i "corff cyhoeddus" ("*public body*") yr un ystyr ag yn DLICD 2015;

mae i "undeb llafur" yr ystyr a roddir i "trade union" gan adran 1 o Ddeddf yr Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cydgrynhoi) 1992 (p. 52) (ac mae i "cydnabyddedig" mewn cysylltiad ag undeb llafur yr ystyr a roddir i "recognised" gan adran 178(3) o'r Ddeddf honno).

RHAN 2

GWAITH TEG

4 Nod gwaith teg

Yn y Ddeddf hon, ystyr y "nod gwaith teg" yw bod Cymru yn genedl lle y nodweddir gwaith gan –

(a) [];

(b) [];

(c) [].

5 Dyletswydd gwaith teg Gweinidogion Cymru

(1) Wrth ymgymryd â datblygu cynaliadwy, rhaid i Weinidogion Cymru –

(a) gosod a chyhoeddi amcanion sydd wedi eu cynllunio i sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl ganddynt at gyrraedd y nod gwaith teg, a

(b) cymryd pob cam rhesymol (wrth arfer eu swyddogaethau) i gyflawni'r amcanion hynny.

(2) Mae'r camau y caniateir eu cymryd o dan is-adran (1)(b) yn cynnwys –

(a) [];

(b) [];

(c) [].

- (3) Caiff Gweinidogion Cymru osod amcanion sy'n ymwneud â Chymru neu unrhyw ran o Gymru.
- (4) Caiff Gweinidogion Cymru ddiwygio amcanion a gyhoeddwyd o dan is-adran (1)(a) a rhaid iddynt gyhoeddi unrhyw amcanion diwygiedig.
- (5) Mae is-adran (1)(b) yn gymwys i amcanion diwygiedig.
- (6) Cyn cyhoeddi amcanion o dan is-adran (1)(a), neu amcanion diwygiedig o dan is-adran (4), rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â Chyngor Partneriaeth Gymdeithasol Cymru.
- (7) At ddibenion is-adran (1), mae i "datblygu cynaliadwy" yr ystyr a roddir gan adran 2 o DLICD 2015.

6 Adroddiadau gwaith teg

- (1) Rhaid i Weinidogion Cymru –
- (a) cyhoeddi, mewn cysylltiad â phob blwyddyn ariannol, adroddiad ynglŷn â'r cynnydd y maent wedi ei wneud tuag at gyflawni'r amcanion a gyhoeddwyd o dan adran 5, a
- (b) gosod copi o'r adroddiad gerbron y Senedd,
- cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi.
- (2) Wrth lunio adroddiad o dan yr adran hon, rhaid i Weinidogion Cymru ystyried os y dylent ddiwygio eu hamcanion.

RHAN 3

CAFFAEL CYHOEDDUS CYMDEITHASOL GYFRIFOL

PENNOD 1

CYFLWYNIAD

Cysyniadau allweddol

7 Contractau cyhoeddus

- (1) Yn y Rhan hon, ystyr "contract cyhoeddus" yw contract rhwng un neu ragor o weithredwyr economaidd ac un neu ragor o awdurdodau contractio; ac sy'n contract sydd â'r nod o gyflawni gweithiau, cyflenwi cynhyrchion neu ddarparu gwasanaethau.
- (2) At ddibenion y Rhan hon, mae cytundeb fframwaith i'w drin fel contract cyhoeddus (ac mae cyfeiriadau at "contract cyhoeddus" i'w dehongli yn unol â hynny).

8 Awdurdodau contractio

- (1) Yn y Rhan hon, ystyr "awdurdod contractio" yw corff, deiliad swydd neu berson arall a restrir yn Rhan 1 o'r Atodlen.

(2) Ond nid yw –

(a) y personau a restrir yn Rhan 2 o'r Atodlen yn awdurdodau contractio at ddibenion adrannau 10(4)(c), 12, 18, 19, 20, 21 neu 22 (sy'n ymwneud â chymalau gweithlu cyhoeddus cymdeithasol);

(b) Gweinidogion Cymru yn awdurdod contractio at ddibenion adrannau 15, 16, 21, 22 neu 27.

(3) Yn y Rhan hon, ardal awdurdod contractio yw'r ardal y mae'r awdurdod yn arfer ei swyddogaethau ynddi yn bennaf, gan ddiystyru unrhyw ardaloedd y tu allan i Gymru.

(4) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau ddiwygio'r adran hon, a'r Atodlen, er mwyn addasu ystyr awdurdod contractio.

9 Caffael cyhoeddus

At ddibenion y Rhan hon, mae cyfeiriadau at "caffael cyhoeddus" yn gyfeiriadau at awdurdod contractio –

(a) yn cynllunio ac yn cyflawni unrhyw weithdrefn cyn dyfarnu contract cyhoeddus gan gynnwys, yn benodol, gwahodd ceisiadau a dethol gweithredwyr economaidd;

(b) drafftio, negodi a dyfarnu contract cyhoeddus;

(c) rheoli contract cyhoeddus ar ôl ei ddyfarnu;

ac mae cyfeiriadau at "caffael" i'w dehongli yn unol â hynny.

PENNOD 2

DYLETSWYDD CAFFAEL CYMDEITHASOL GYFRIFOL

Y ddyletswydd caffael cymdeithasol gyfrifol

10 Dyletswydd caffael cymdeithasol gyfrifol

(1) Rhaid i awdurdod contractio geisio gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ei ardal drwy gynnal caffael cyhoeddus mewn ffordd gymdeithasol gyfrifol.

(2) Mae awdurdod contractio yn cynnal caffael cyhoeddus mewn ffordd gymdeithasol gyfrifol drwy gymryd camau gweithredu, yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, sydd â'r nod o gyfrannu at gyflawni –

(a) y nodau llesiant a restrir yn adran 4 o DLICD 2015, a

(b) y nod gwaith teg (o fewn yr ystyr a roddir gan adran 4),

y cyfeirir atynt at ddibenion y Rhan hon fel y "nodau caffael cymdeithasol gyfrifol".

(3) Rhaid i awdurdod contractio osod a chyhoeddi amcanion sydd wedi eu cynllunio i sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl ganddo at gyflawni'r nodau caffael cymdeithasol gyfrifol.

- (4) Wrth gymryd camau gweithredu sydd â'r nod o gyfrannu at gyflawni'r nodau caffael cymdeithasol gyfrifol, rhaid i awdurdod contractio –
- (a) cymryd pob cam rhesymol i gyflawni'r amcanion a grybwyllir yn is-adran (3) pan fo'n cynnal caffael cyhoeddus mewn perthynas ag unrhyw gontract rhagnodedig;
 - (b) cymryd y camau penodol y cyfeirir atynt yn adran 11 pan fo'n cynnal caffael cyhoeddus mewn perthynas â chontract adeiladu mawr;
 - (c) cymryd y camau penodol y cyfeirir atynt yn adran 12 pan fo'n cynnal caffael cyhoeddus mewn perthynas â chontract allanoli gwasanaeth.
- (5) Cyn gosod amcanion o dan is-adran (3) –
- (a) rhaid i awdurdod contractio ymgynghori â Gweinidogion Cymru;
 - (b) rhaid i Weinidogion Cymru (fel awdurdod contractio) ymgynghori â Chyngor Partneriaeth Gymdeithasol Cymru.
- (6) Er gwaethaf is-adran (1), ni chaniateir i awdurdod contractio gynnwys darpariaethau mewn contract rhagnodedig –
- (a) nad ydynt yn gysylltiedig â phwnc y contract neu gyflawni'r contract;
 - (b) nad ydynt yn gymesur (gan ystyried gwerth amcangyfrifedig y contract);
 - (c) a fyddai'n gwrthdaro ag unrhyw ddeddfiad arall neu unrhyw reol gyfreithiol sy'n ymwneud â chaffael cyhoeddus.
- (7) At ddibenion is-adran (2), mae i'r "egwyddor datblygu cynaliadwy" yr ystyr a roddir gan adran 5 o DLICD 2015.
- (8) Yn y Rhan hon, ystyr "contract rhagnodedig" yw –
- (a) contract adeiladu mawr (gweler adran 11),
 - (b) contract allanoli gwasanaethau (gweler adran 12), ac
 - (c) unrhyw gontract cyhoeddus arall o ddisgrifiad a ragnodir gan Weinidogion Cymru drwy reoliadau.

11 Dyletswydd caffael cymdeithasol gyfrifol: contractau adeiladu mawr

- (1) Y camau gweithredu penodol a grybwyllir yn adran 10(4)(b) yw –
- (a) rhoi sylw i gymalau gweithiau cyhoeddus cymdeithasol enghreifftiol a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru o dan adran 13;
 - (b) wrth lunio a chynnal gweithdrefnau cyn dyfarnu contract adeiladu mawr, ystyried pa un a ddylai'r contract gynnwys cymalau gweithiau cyhoeddus cymdeithasol;
 - (c) wrth negodi a dyfarnu'r contract, cymryd pob cam rhesymol –
 - (i) i gynnwys unrhyw gymalau gweithiau cyhoeddus cymdeithasol y mae'n ystyried y dylent gael eu cynnwys;
 - (ii) i sicrhau bod modd gweithredu cymalau sydd wedi eu cynnwys yn y contract;

(d) wrth reoli'r contract, cymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod cymalau gweithiau cyhoeddus cymdeithasol sydd wedi eu cynnwys yn y contract yn cael eu gweithredu;

(gweler adrannau 13 i 17 am ddarpariaeth bellach ynghylch ystyr "cymalau gweithiau cyhoeddus cymdeithasol" a chymhwyso'r cymalau hynny i gontractau adeiladu mawr).

(2) Yn y Rhan hon, ystyr "contract adeiladu mawr" yw contract cyhoeddus sydd â gwerth amcangyfrifedig o £2,000,000 neu fwy, sy'n –

(a) contract gweithiau cyhoeddus,

(b) contract gweithiau, neu

(c) contract consesiynau gweithiau.

(3) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau ddiwygio'r adran hon i addasu ystyr contract adeiladu mawr.

12 Dyletswydd caffael cymdeithasol gyfrifol: contractau allanoli gwasanaethau

(1) Y camau gweithredu penodol a grybwyllir yn adran 10(4)(c) yw –

(a) rhoi sylw i'r cod allanoli gwasanaethau cyhoeddus a'r gweithlu a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru o dan adran 18;

(b) wrth lunio a chynnal gweithdrefnau cyn dyfarnu'r contract allanoli gwasanaethau, ystyried pa un a ddylai'r contract gynnwys cymalau gweithlu cyhoeddus cymdeithasol;

(c) wrth negodi a dyfarnu'r contract, cymryd pob cam rhesymol –

(i) i gynnwys unrhyw gymalau gweithlu cyhoeddus cymdeithasol y mae'n ystyried y dylent gael eu cynnwys;

(ii) i sicrhau bod modd gweithredu gymalau sydd wedi eu cynnwys yn y contract;

(d) wrth reoli'r contract, cymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod unrhyw gymalau gweithlu cyhoeddus cymdeithasol sy'n cael eu cynnwys yn y contract yn cael eu gweithredu;

(gweler adrannau 18 i 23 am ddarpariaeth bellach ynghylch y cod allanoli gwasanaethau cyhoeddus a'r gweithlu, ystyr "cymalau gweithlu cyhoeddus cymdeithasol" a chymhwyso'r cymalau hynny i gontractau allanoli gwasanaethau).

(2) Yn y Rhan hon, ystyr "contract allanoli gwasanaethau" yw contract –

(a) y mae gofyniad i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus sy'n cael eu darparu gan, neu a ddarparwyd yn flaenorol gan, awdurdod contractio yn cael ei drosglwyddo i berson arall oddi tano, neu

(b) y mae person arall yn cytuno i gyflawni unrhyw swyddogaeth arall sy'n cael ei gyflawni gan, neu a gyflawnwyd yn flaenorol gan, awdurdod contractio oddi tano;

ac mae "allanoli" i'w ddehongli yn unol â hynny.

*Cymalau gweithiau cyhoeddus cymdeithasol***13 Cymalau gweithiau cyhoeddus cymdeithasol mewn contractau adeiladu mawr**

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi cymalau enghreifftiol ar gyfer contractau adeiladu mawr (“cymalau gweithiau cyhoeddus cymdeithasol”) sydd wedi eu cynllunio i sicrhau gwelliannau o ran y llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol a restrir o dan bob categori yn is-adran (2).

(2) Y categorïau yw –

Categori 1: Sicrhau a gorfodi taliadau prydlon.

Categori 2: Darparu cyfleoedd cyflogaeth i bobl ifanc, pobl hŷn, pobl ddi-waith hirdymor, pobl ag anableddau neu bobl sydd fel arall o dan anfantais.

Categori 3: Sicrhau cydymffurfedd â rhwymedigaethau cyfreithiol mewn perthynas â hawliau cyflogaeth (gan gynnwys yr isafswm cyflog a chyflog byw), iechyd a diogelwch a chynrychiolaeth undebau llafur.

Categori 4: Darparu hyfforddiant priodol i weithwyr.

Categori 5: Darparu cyfleoedd i fusnesau bach a chanolig eu maint a sefydliadau gwirfoddol i gyflawni gwaith, cyflenwi cynhyrchion neu ddarparu gwasanaethau.

Categori 6: Ei gwneud yn ofynnol i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr, a diogelu neu wella’r amgylchedd naturiol a bioamrywiaeth.

(3) Mae cyfeiriad yn y Rhan hon at awdurdod contractio yn cynnwys cymalau gweithiau cyhoeddus cymdeithasol mewn contractau adeiladu mawr –

(a) yn gyfeiriad at yr holl gymalau contract enghreifftiol a gyhoeddir mewn cysylltiad â phob categori yn is-adran (2), a

(b) yn golygu ymgorffori cymalau sydd â’r un effaith neu’r un effaith yn sylweddol â’r cymalau contract enghreifftiol cyhoeddedig.

14 Cymalau gweithiau cyhoeddus cymdeithasol mewn is-gontractau

(1) Mae is-adran (2) yn gymwys os yw awdurdod contractio yn bwriadu cynnwys cymalau gweithiau cyhoeddus cymdeithasol mewn contract adeiladu mawr y mae’n cytuno arno â gweithredwr economaidd (“contractiwr”) (ar ôl ystyried gwneud hynny yn unol ag adran 11(1)(b)).

(2) Rhaid i’r awdurdod gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y rhwymedigaethau yn y cymalau gweithiau cyhoeddus cymdeithasol yn cael eu gweithredu pan fo’r contractiwr yn ymrwymo i is-gontract gydag unrhyw weithredwr economaidd arall (“is-gontractiwr”).

(3) Mae enghreifftiau o'r camau rhesymol y gellir eu cymryd o dan is-adran (2) yn cynnwys –

(a) sicrhau bod cymalau gweithiau cyhoeddus cymdeithasol sy'n cael yr un effaith neu'r un effaith yn sylweddol â'r cymalau mewn contract adeiladu mawr yn cael eu cynnwys mewn unrhyw is-gontract –

(i) y mae'r contractiwr yn ymrwymo iddo gydag is-gontractiwr, a

(ii) y mae'r is-gontractiwr yn ymrwymo iddo gydag is-gontractiwr dilynol (ac yn y blaen);

(b) sicrhau y caniateir i'r awdurdod contractio orfodi'r rhwymedigaethau mewn cymalau gweithiau cyhoeddus cymdeithasol o dan y contract adeiladu mawr neu o dan is-gontract;

(c) ei gwneud yn ofynnol i'r contractiwr gael cydsyniad yr awdurdod contractio cyn ymrwymo i is-gontract, gyda chydsyniad yn cael ei roi ar yr amod bod cymalau gweithiau cyhoeddus cymdeithasol sy'n cael yr un effaith, neu'r un effaith yn sylweddol, â'r cymalau hynny sydd wedi eu cynnwys yn y contract adeiladu mawr yn cael eu cynnwys mewn unrhyw is-gontract;

(d) ei gwneud yn ofynnol i'r contractiwr hysbysu'r awdurdod contractio os yw'n bwriadu ymrwymo i is-gontract nad yw'n cynnwys cymalau gweithiau cyhoeddus cymdeithasol sy'n cael yr un effaith neu'r un effaith yn sylweddol â'r cymalau hynny sydd wedi eu cynnwys yn y contract adeiladu mawr;

(e) ei gwneud yn ofynnol i'r contractiwr fonitro i ba raddau y mae unrhyw rwymedigaethau mewn cymalau gweithiau cyhoeddus cymdeithasol yn cael eu gweithredu pan fo'r contractiwr wedi ymrwymo i is-gontract gydag unrhyw weithredwr economaidd arall.

15 Cymalau gweithiau cyhoeddus cymdeithasol: hysbysu Gweinidogion Cymru

(1) O ran contract adeiladu mawr, rhaid i awdurdod contractio hysbysu Gweinidogion Cymru –

(a) os nad yw'r awdurdod yn bwriadu cynnwys cymalau gweithiau cyhoeddus cymdeithasol yn y contract (ar ôl ystyried gwneud hynny yn unol ag adran 11(1)(b));

(b) os nad oes cymalau gweithiau cyhoeddus cymdeithasol yn y contract (er bod yr awdurdod wedi cymryd pob cam rhesymol yn unol ag adran 11(1)(c)(i));

(c) os nad oes unrhyw broses ar waith i sicrhau bod rhwymedigaethau mewn cymalau gweithiau cyhoeddus cymdeithasol yn cael eu gweithredu (er bod yr awdurdod wedi cymryd pob cam rhesymol yn unol ag adran 11(1)(c)(ii));

(d) os nad oes unrhyw broses ar waith i sicrhau bod rhwymedigaethau mewn cymalau gweithiau cyhoeddus cymdeithasol yn dal i gael eu gweithredu pan fo'r contract yn cael ei is-gontractio (er bod yr awdurdod wedi cymryd pob cam rhesymol o dan adran 14(2)).

- (2) Rhaid gwneud hysbysiad o dan is-adran (1) cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, a rhaid i'r hysbysiad nodi rhesymau'r awdurdod.

16 Cymalau gweithiau cyhoeddus cymdeithasol: ymateb Gweinidogion Cymru

- 5 (1) Pan fo Gweinidogion Cymru yn cael hysbysiad oddi wrth awdurdod contractio o dan adran 15(1), rhaid iddynt ystyried a ydynt yn fodlon â'r rhesymau a roddwyd yn yr hysbysiad.
- (2) Wrth wneud hynny, caiff Gweinidogion Cymru –
- 10 (a) ymgynghori â'r awdurdod;
- (b) drwy hysbysiad ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod ddarparu unrhyw ddogfennau neu wybodaethau arall sy'n ofynnol gan Weinidogion Cymru at ddibenion is-adran (1) ar unrhyw ffurf neu mewn unrhyw fodd a bennir yn yr hysbysiad;
- 15 (c) darparu copi o'r hysbysiad o dan adran 15(1), ac unrhyw ddogfennau eraill neu wybodaeth arall a geir o dan baragraff (b), i Gyngor Partneriaeth Gymdeithasol Cymru.
- (3) Rhaid i awdurdod contractio ddarparu unrhyw ddogfennau neu wybodaeth arall y mae'n ofynnol iddo eu darparu neu ei darparu o dan is-adran (2) cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.
- 20 (4) Os nad yw Gweinidogion Cymru yn fodlon, ar ôl ystyried y rhesymau a roddwyd o dan is-adran (1), caiff Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddyd i'r awdurdod contractio i gymryd pob cam rhesymol i –
- (a) cynnwys cymalau gweithiau cyhoeddus cymdeithasol yn y contract adeiladu mawr,
- 25 (b) rhoi prosesau ar waith i sicrhau bod rhwymedigaethau mewn cymalau gweithiau cyhoeddus cymdeithasol yn cael eu gweithredu, neu
- (c) rhoi prosesau ar waith i sicrhau bod rhwymedigaethau mewn cymalau gweithiau cyhoeddus cymdeithasol yn cael eu gweithredu pan fo'r contract yn cael ei is-gontractio.
- 30 (5) Rhaid i Weinidogion Cymru gymryd unrhyw gamau o dan is-adrannau (2)(a) neu (b) cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

17 Cymalau gweithiau cyhoeddus cymdeithasol: contractau Gweinidogion Cymru

- (1) O ran contract adeiladu mawr, rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi datganiad –
- 35 (a) os nad ydynt yn bwriadu cynnwys cymalau gweithiau cyhoeddus cymdeithasol yn y contract (ar ôl ystyried gwneud hynny yn unol ag adran 11(1)(b));
- (b) os nad oes cymalau gweithiau cyhoeddus cymdeithasol yn y contract (er eu bod wedi cymryd pob cam rhesymol yn unol ag adran 11(1)(c)(i));
- (c) os nad oes unrhyw broses ar waith i sicrhau bod rhwymedigaethau mewn cymalau gweithiau cyhoeddus cymdeithasol yn dal i gael eu gweithredu (er eu bod wedi cymryd pob cam rhesymol o dan adran 11(1)(c)(ii));

(d) os nad oes unrhyw broses ar waith i sicrhau bod rhwymedigaethau mewn cymalau gweithiau cyhoeddus cymdeithasol yn dal i gael eu gweithredu pan fo'r contract yn cael ei is-gontractio (er eu bod wedi cymryd pob cam rhesymol o dan adran 14(2)).

(2) Rhaid i ddatganiad a wneir o dan is-adran (1) gael ei wneud cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol a rhaid i'r datganiad nodi rhesymau Gweinidogion Cymru.

Cymalau gweithlu cyhoeddus cymdeithasol a chod ymarfer allanoli gwasanaethau cyhoeddus

18 Y cod allanoli gwasanaethau cyhoeddus a'r gweithlu

(1) At ddibenion cynnal neu wella ansawdd gwasanaethau cyhoeddus neu swyddogaethau eraill a allanolir gan awdurdodau contractio, rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi cod ymarfer ("y cod ymarfer allanoli gwasanaethau cyhoeddus a'r gweithlu") ynghylch materion cyflogaeth a phensiynau sy'n gysylltiedig â chontractau allanoli gwasanaethau.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru ddiwygio'r cod a rhaid iddynt gyhoeddi'r cod diwygiedig.

(3) Rhaid i Weinidogion Cymru osod copi o'r cod ac unrhyw ddiwygiadau iddo gerbron y Senedd.

19 Cymalau gweithlu cyhoeddus cymdeithasol mewn contractau allanoli gwasanaethau

Rhaid i'r cod allanoli gwasanaethau cyhoeddus a'r gweithlu gynnwys cymalau contract enghreifftiol ("cymalau gweithlu cyhoeddus cymdeithasol") sydd, yn benodol –

(a) wedi eu cynllunio i sicrhau y bydd aelodau o staff a gyflogir gan awdurdodau contractio i ddarparu'r gwasanaethau, neu gyflawni'r swyddogaethau, sydd i'w allanoli yn cael eu cyflogi, os ydynt yn dymuno, gan y person sy'n darparu'r gwasanaethau, neu sy'n cyflawni'r swyddogaethau hynny, pan gânt eu hallanoli ("staff sy'n trosglwyddo");

(b) wedi eu cynllunio i ddiogelu telerau ac amodau cyflogaeth a threfniadau pensiwn staff sy'n trosglwyddo;

(c) wedi eu cynllunio i sicrhau nad yw telerau ac amodau aelodau eraill o staff a gyflogir gan y person sy'n darparu'r gwasanaethau, neu sy'n cyflawni'r swyddogaethau, a allanolir sy'n ymwneud â darparu'r gwasanaethau, neu gyflawni'r swyddogaethau, hynny yn llai ffafriol ar y cyfan na thelerau ac amodau'r staff hynny sy'n trosglwyddo, a bod trefniadau pensiwn yr aelodau eraill o staff hynny yn rhesymol;

(d) yn gwneud darpariaethau atodol i'r materion y cyfeirir atynt ym mharagraffau (a) i (c).

20 Cymalau gweithlu cyhoeddus cymdeithasol mewn is-gontractau

(1) Mae is-adran (2) yn gymwys os yw awdurdod contractio yn bwriadu cynnwys cymalau gweithlu cyhoeddus cymdeithasol mewn contract allanoli gwasanaethau y mae'n cytuno arno gyda gweithredwr economaidd ("contractiwr") (ar ôl ystyried gwneud hynny yn unol ag adran 12(1)(b)).

(2) Rhaid i'r awdurdod gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y rhwymedigaethau yn y cymalau gweithlu cyhoeddus cymdeithasol yn cael eu gweithredu pan fo'r contractiwr yn ymrwymo i is-gontract gydag unrhyw weithredwr economaidd arall ("is-gontractiwr").

(3) Mae enghreifftiau o'r camau rhesymol y gellir eu cymryd o dan is-adran (2) yn cynnwys –

(a) sicrhau bod cymalau gweithlu cyhoeddus cymdeithasol sy'n cael yr un effaith neu'r un effaith yn sylweddol â'r cymalau yn y contract allanoli gwasanaethau yn cael eu cynnwys mewn unrhyw is-gontract –

(i) y ma'r contractiwr yn ymrwymo iddo gydag is-gontractiwr, a

(ii) y ma'r contractiwr yn ymrwymo iddo gydag is-gontractiwr dilynol (ac yn y blaen);

(b) sicrhau y caniateir i'r awdurdod contractio orfodi'r rhwymedigaethau mewn cymalau gweithlu cyhoeddus cymdeithasol o dan y contract allanoli gwasanaethau neu o dan is-gontract;

(c) ei gwneud yn ofynnol i gontractiwr gael cydsyniad yr awdurdod contractio cyn ymrwymo i is-gontract, gyda chydsyniad yn cael ei roi ar yr amod bod cymalau gweithlu cyhoeddus cymdeithasol sy'n cael yr un effaith, neu'r un effaith yn sylweddol, â'r cymalau hynny sydd wedi eu cynnwys yn y contract allanoli gwasanaethau yn cael eu cynnwys mewn unrhyw is-gontract;

(d) ei gwneud yn ofynnol i gontractiwr hysbysu'r awdurdod contractio os yw'n bwriadu ymrwymo i is-gontract nad yw'n cynnwys cymalau gweithlu cyhoeddus cymdeithasol sy'n cael yr un effaith, neu'r un effaith yn sylweddol, â'r cymalau hynny sydd wedi eu cynnwys yn y contract allanoli gwasanaethau;

(e) ei gwneud yn ofynnol i'r contractiwr fonitro i ba raddau y mae unrhyw rwymedigaethau mewn cymalau gweithlu cyhoeddus cymdeithasol yn cael eu gweithredu pan fo'r contractiwr wedi ymrwymo i is-gontract gydag unrhyw weithredwr economaidd arall.

21 Cymalau gweithlu cyhoeddus cymdeithasol: hysbysu Gweinidogion Cymru

(1) O ran contract allanoli gwasanaethau, rhaid i awdurdod contractio hysbysu Gweinidogion Cymru –

(a) os nad yw'r awdurdod yn bwriadu cynnwys cymalau gweithlu cyhoeddus cymdeithasol yn y contract (ar ôl ystyried gwneud hynny yn unol ag adran 12(1)(b));

(b) os nad oes cymalau gweithlu cyhoeddus cymdeithasol yn y contract (er bod yr awdurdod wedi cymryd pob cam rhesymol yn unol ag adran 12(1)(c)(i));

(c) os nad oes unrhyw broses ar waith i sicrhau bod rhwymedigaethau mewn cymalau gweithlu cyhoeddus cymdeithasol yn cael eu gweithredu (er bod yr awdurdod wedi cymryd pob cam rhesymol yn unol ag adran 12(1)(c)(ii));

(d) os nad oes unrhyw broses ar waith i sicrhau bod rhwymedigaethau mewn cymalau gweithlu cyhoeddus cymdeithasol yn dal i gael eu gweithredu pan fo'r contract yn cael ei is-gontractio (er bod yr awdurdod wedi cymryd pob cam rhesymol yn unol ag adran 20(2)).

(2) Rhaid gwneud hysbysiad o dan is-adran (1) cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, a rhaid i'r hysbysiad nodi rhesymau'r awdurdod.

22 Cymalau gweithlu cyhoeddus cymdeithasol: ymateb Gweinidogion Cymru

(1) Pan fo Gweinidogion Cymru yn cael hysbysiad o dan adran 21(1), rhaid iddynt ystyried a ydynt yn fodlon â'r rhesymau a roddwyd yn yr hysbysiad.

(2) Wrth wneud hynny, caiff Gweinidogion Cymru –

(a) ymgynghori â'r awdurdod contractio;

(b) drwy hysbysiad ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod ddarparu unrhyw ddogfennau neu wybodaethau arall sy'n ofynnol gan Weinidogion Cymru at ddibenion is-adran (1) ar unrhyw ffurf neu mewn unrhyw fodd a bennir yn yr hysbysiad;

(c) darparu copi o'r hysbysiad o dan is-adran 21(1), ac unrhyw ddogfennau neu wybodaeth arall a geir o dan baragraff (b), i Gyngor Partneriaeth Gymdeithasol Cymru.

(3) Rhaid i awdurdod contractio ddarparu unrhyw ddogfennau neu wybodaeth arall y mae'n ofynnol iddo eu darparu neu ei darparu o dan is-adran (b) cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

(4) Os nad yw Gweinidogion Cymru yn fodlon, ar ôl ystyried o dan is-adran (1), caiff Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddyd i'r awdurdod contractio i gymryd pob cam rhesymol, fel y bo'n berthnasol, i –

(a) cynnwys cymalau gweithlu cyhoeddus cymdeithasol yn y contract allanoli gwasanaethau,

(b) rhoi prosesau ar waith i sicrhau bod rhwymedigaethau mewn cymalau gweithlu cyhoeddus cymdeithasol yn cael eu gweithredu, neu

(c) rhoi prosesau ar waith i sicrhau bod rhwymedigaethau mewn cymalau gweithlu cyhoeddus cymdeithasol yn dal i gael eu gweithredu pan fo'r contract yn cael ei is-gontractio.

(5) Rhaid i Weinidogion Cymru gymryd unrhyw gamau o dan is-adrannau (2)(a) neu (b) cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

23 Cymalau gweithlu cyhoeddus cymdeithasol: contractau Gweinidogion Cymru

(1) O ran contract allanoli gwasanaethau, rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi datganiad –

(a) os nad ydynt yn bwriadu cynnwys cymalau gweithlu cyhoeddus cymdeithasol yn y contract (ar ôl ystyried gwneud hynny yn unol ag adran 12(1)(b));

(b) os nad oes cymalau gweithlu cyhoeddus cymdeithasol yn y contract (er eu bod wedi cymryd pob cam rhesymol yn unol ag adran 12(1)(c)(i));

- (c) os nad oes unrhyw broses ar waith i sicrhau bod rhwymedigaethau mewn cymalau gweithlu cyhoeddus cymdeithasol yn cael eu gweithredu (er eu bod wedi cymryd pob cam rhesymol yn unol ag adran 12(1)(c)(ii));
- (d) os nad oes unrhyw broses ar waith i sicrhau bod rhwymedigaethau mewn cymalau gweithlu cyhoeddus cymdeithasol yn dal i gael eu cyflawni pan fo'r contract yn cael ei is-gontractio (er eu bod Gweinidogion Cymru wedi cymryd pob cam rhesymol o dan adran 20(2)).
- (2) Rhaid i ddatganiad a wneir o dan is-adran (1) gael ei wneud cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol a rhaid i'r datganiad nodi rhesymau Gweinidogion Cymru.

Strategaethau caffael

24 Strategaeth gaffael

- (1) Rhaid i awdurdod contractio lunio strategaeth ("strategaeth gaffael") sy'n nodi sut y mae'r awdurdod yn bwriadu cynnal caffael cyhoeddus.
- (2) Rhaid i strategaeth gaffael, yn benodol –
- (a) datgan sut y mae'r awdurdod yn bwriadu sicrhau y bydd yn cynnal caffael cyhoeddus mewn ffordd gymdeithasol gyfrifol yn unol ag adran 10(1) (i'r graddau y mae'r ddyletswydd honno yn gymwys mewn perthynas â'i gaffaeliadau);
- (b) datgan sut y mae'r awdurdod yn bwriadu cymryd pob cam rhesymol i gyflawni'r amcanion y mae'n eu gosod o dan adran 10(3) pan fo'n cynnal caffael cyhoeddus mewn perthynas ag unrhyw gontract rhagnodedig;
- (c) datgan dull gweithredu'r awdurdod o ran sicrhau gwerth am arian;
- (d) datgan sut y mae'r awdurdod yn bwriadu gwneud taliadau sy'n ddyledus o dan gontract yn brydlon ac, oni bai nad yw hyn yn rhesymol ymarferol, yn ddim hwyrach na 30 o ddiwrnodau ar ôl cyflwyno anfoneb (neu hawliad tebyg);
- (e) mynd i'r afael â materion eraill a bennir gan reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru.
- (3) Rhaid i awdurdod contractio –
- (a) adolygu ei strategaeth gaffael bob blwyddyn ariannol,
- (b) gwneud unrhyw ddiwygiadau y mae'r awdurdod yn ystyried eu bod yn briodol o bryd i'w gilydd, ac
- (c) cyhoeddi'r strategaeth, ac unrhyw ddiwygiadau iddo, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl iddi gael ei llunio neu ei diwygio.
- (4) Caniateir i ddau neu ragor o awdurdodau contractio gyflawni eu rhwymedigaethau o dan yr adran hon drwy lunio strategaeth caffael ar y cyd.

PENNOD 3

ADRODD AC ATEBOLRWYDD

25 Adroddiadau caffael cymdeithasol gyfrifol blynyddol

- 5 (1) Rhaid i awdurdod contractio sydd wedi dyfarnu unrhyw gontractau rhagnodedig yn ystod blwyddyn ariannol lunio a chyhoeddi adroddiad blynyddol ar ei gaffael cyhoeddus cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl diwedd y flwyddyn honno.
- (2) Rhaid i'r adroddiad gynnwys –
- (a) crynodeb o'r caffaeliadau yn ystod y flwyddyn a arweiniodd at ddyfarnu contract rhagnodedig neu y bwriadwyd iddynt arwain at ddyfarnu contract o'r fath;
- 10 (b) adolygiad sy'n ystyried i ba raddau y cymerwyd pob cam rhesymol yn y caffaeliadau hynny i gyflawni'r amcanion a osodwyd o dan adran 10(3);
- (c) i'r graddau y mae'n ystyried y gellir cymryd camau pellach mewn caffaeliadau yn y dyfodol i gyflawni'r amcanion a osodwyd o dan adran 10(3), datganiad o sut y mae'r awdurdod yn bwriadu gwneud hynny;
- 15 (d) crynodeb o'r gwaith caffael y mae'r awdurdod yn disgwyl ei gynnal yn ystod y ddwy flwyddyn ariannol nesaf;
- (e) gwybodaeth arall a bennir drwy reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru.

26 Cofrestr gontractau

- (1) Rhaid i awdurdod contractio greu, cynnal a chyhoeddi cofrestr gontractau.
- 20 (2) Mae cofrestr gontractau yn gofrestr o gontractau cyhoeddus yr ymrwymwyd iddynt gan yr awdurdod contractio sydd o ddisgrifiad a ragnodwyd gan Weinidogion Cymru drwy reoliadau ("contractau cofrestradwy").
- (3) Mewn perthynas â phob contract cofrestradwy, rhaid i gofrestr gontractau gynnwys yr wybodaeth a ganlyn –
- 25 (a) dyddiad dyfarnu'r contract;
- (b) enw'r contractiwr;
- (c) y pwnc;
- (d) y gwerth amcangyfrifedig;
- (e) y dyddiad cychwyn;
- 30 (f) y dyddiad terfynu y darperir ar ei gyfer yn y contract (gan ddiystyru unrhyw opsiwn i ymestyn y contract) neu, pan na fo dyddiad wedi ei bennu, disgrifiad o'r amgylchiadau y bydd y contract yn terfynu oddi tanynt;
- (g) hyd unrhyw gyfnod y gellir ymestyn y contract.
- (4) Ond caiff awdurdod atal cyhoeddi cofnod, neu ran o gofnod, os yw'n ystyried y byddai
- 35 (a) rhwystro gorfodi'r gyfraith neu fel arall yn groes i fudd y cyhoedd,

- (b) rhagfarnu buddiannau masnachol unrhyw berson, neu
 - (c) rhagfarnu cystadleuaeth deg rhwng gweithredwyr economaidd.
- (5) Ni chaiff awdurdod ddileu cofnod yn ei gofrestr gcontractau ond ar ôl i'r contract y mae'r cofnod yn ymwneud ag ef ddod i ben neu gael ei derfynu.

5 **27 Ymchwiliadau caffael**

- (1) Caiff Gweinidogion Cymru ymchwilio i'r modd y mae awdurdod contractio yn cynnal caffael cyhoeddus.
- (2) Caiff ymchwiliad ymwneud â gwaith caffael cyhoeddus penodol a gynhaliwyd gan awdurdod contractio neu â'i weithgarwch caffael cyhoeddus cyffredinol.
- 10 (3) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy hysbysiad, ei gwneud yn ofynnol i awdurdod contractio ddarparu'r dogfennau hynny neu'r wybodaeth arall honno sy'n ofynnol gan Weinidogion Cymru at ddibenion ymchwiliad o dan yr adran hon, ar ba bynnag ffurf neu ym mha bynnag fodd a bennir yn yr hysbysiad.
- (4) Rhaid i awdurdod contractio –
- 15 (a) rhoi cymorth rhesymol i Weinidogion Cymru mewn perthynas ag ymchwiliad;
- (b) cydymffurfio â hysbysiad o dan is-adran (3) cyn diwedd y cyfnod o 30 o ddiwrnodau sy'n dechrau â thrannoeth y diwrnod y rhoddir yr hysbysiad.
- (5) Ar ôl cwblhau'r ymchwiliad, caiff Gweinidogion Cymru –
- (a) gwneud argymhellion i'r awdurdod contractio;
- 20 (b) cyhoeddi adroddiad ar ganlyniadau'r ymchwiliad;
- (c) gosod copi o unrhyw adroddiad a gyhoeddwyd gerbron y Senedd.

28 Adroddiad blynyddol Gweinidogion Cymru ar gaffael cyhoeddus

- (1) Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl diwedd blwyddyn ariannol, rhaid i Weinidogion Cymru lunio adroddiad blynyddol ar gaffael cyhoeddus yng Nghymru.
- 25 (2) Rhaid i'r adroddiad, yn benodol, gynnwys gwybodaeth ynghylch –
- (a) yr adroddiadau caffael blynyddol a gyhoeddir o dan adran 25(1);
- (b) unrhyw adroddiad ar ganlyniadau unrhyw ymchwiliadau o dan adran 27(5)(b).
- (3) Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi'r adroddiad a gosod copi ohono gerbron y Senedd.

30

PENNOD 4

CYFFREDINOL

29 Canllawiau

- (1) Caiff Gweinidogion Cymru ddyroddi canllawiau ar weithrediad y Rhan hon.
- (2) Caiff canllawiau, yn benodol, wneud darpariaeth ynghylch –
- 35 (a) bodloni'r gofyniad yn adran 10(1) i gynnal caffael cyhoeddus mewn ffordd gymdeithasol gyfrifol;

- (b) cymryd pob cam rhesymol i fodloni'r amcanion a osodir o dan adran 10(3);
- (c) cymalau gweithiau cyhoeddus cymdeithasol;
- (d) y cod allanoli gwasanaethau cyhoeddus a'r gweithlu;
- (e) cymalau gweithlu cyhoeddus cymdeithasol;
- 5 (f) ymgynghori wrth lunio strategaeth gaffael;
- (g) ffurf a chynnwys strategaethau caffael ac adroddiadau caffael blynyddol;
- (h) y broses a ddefnyddir gan awdurdod contractio i gymeradwyo ei strategaeth gaffael;
- (i) strategaethau caffael ar y cyd.

- 10 (3) Rhaid i awdurdod contractio roi sylw i ganllawiau perthnasol a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru.
- (4) Rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â Chyngor Partneriaeth Gymdeithasol Cymru cyn cyhoeddi canllawiau o dan y Rhan hon.

30 Rheoliadau

- 15 (1) Mae pŵer i wneud rheoliadau o dan y Rhan hon –
 - (a) yn arferadwy drwy offeryn statudol;
 - (b) yn cynnwys y pŵer i wneud darpariaeth wahanol at ddibenion gwahanol;
 - (c) yn cynnwys y pŵer i wneud darpariaeth gysylltiedig, darpariaeth atodol, darpariaeth ganlyniadol, darpariaeth drosiannol, darpariaeth ddarfodol neu ddarpariaeth arbed.
- 20 (2) Ni chaniateir gwneud offeryn statudol sy'n cynnwys rheoliadau a wnaed o dan adran 10(8)(c) neu 11(3) oni bai bod drafft o'r offeryn wedi ei osod gerbron Senedd Cymru ac wedi ei gymeradwyo drwy benderfyniad ganddi.
- 25 (3) Mae unrhyw offeryn statudol arall sy'n cynnwys rheoliadau a wnaed o dan y Rhan hon yn ddarostyngedig i'w ddiddymu yn unol â phenderfyniad gan Senedd Cymru.

31 Dehongli Rhan 3

- (1) Yn y Rhan hon –
 - mae i "awdurdod contractio" ("*contracting authority*") yr ystyr a roddir yn adran 8;
 - mae i "caffael cyhoeddus" ("*public procurement*") yr ystyr a roddir yn adran 9;
 - 30 mae i "y cod allanoli gwasanaethau cyhoeddus a'r gweithlu" ("*the public services outsourcing and workforce code*") yr ystyr a roddir yn adran 18(1);
 - mae i "contract allanoli gwasanaethau" ("*outsourcing services contract*") yr ystyr a roddir yn adran 12(2);
 - mae i "contract gweithiau cyhoeddus" ("*public works contract*") yr ystyr a roddir gan reoliad 2(1) o'r Rheoliadau Contractau Cyhoeddus;
 - 35 mae i "contract rhagnodedig" ("*prescribed contract*") yr ystyr a roddir yn adran 10(8);

mae i “contract consesiwn gweithiau” yr ystyr a roddir i “works concession contract” gan reoliadau 2(1) a 3(2) o’r Rheoliadau Contractau Consesiwn;

mae i “contract gweithiau” yr ystyr a roddir i “works contract” gan reoliad 2(1) o’r Rheoliadau Contractau Cyfleustodau;

mae i “cymalau gweithlu cyhoeddus” (“*public workforce clauses*”) yr ystyr a roddir yn adran 18(2);

ystyr “cytundeb fframwaith” (“*framework agreement*”) yw cytundeb rhwng un neu ragor o awdurdodau contractio ac un neu ragor o weithredwyr economaidd, gyda’r diben o sefydlu’r prif delerau sy’n llywodraethu contractau cyhoeddus (contractau yn ôl y gofyn) sydd i’w dyfarnu yn ystod cyfnod penodol, yn enwedig o ran prasio nwyddau neu wasanaethau y rhagwelir y cânt eu caffael a, lle y bo’n briodol, eu nifer;

mae i “gweithiau” yr ystyr a roddir i “works” gan baragraff 2 o reoliad 2(1) o’r Rheoliadau Contractau Cyhoeddus;

ystyr “gweithredwr economaidd” (“*economic operator*”) yw unrhyw berson sy’n cynnig cyflawni gweithiau, cyflenwi cynhyrchion neu ddarparu gwasanaethau ar y farchnad;

ystyr “y Rheoliadau Contractau Consesiwn” (“*the Concession Contracts Regulations*”) yw Rheoliadau Contractau Consesiwn 2016 (O.S. 2016/273);

ystyr “y Rheoliadau Contractau Cyfleustodau” (“*the Utilities Contracts Regulations*”) yw Rheoliadau Contractau Cyfleustodau 2016 (O.S. 2016/274);

ystyr “y Rheoliadau Contractau Cyhoeddus” (“*the Public Contracts Regulations*”) yw Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 (O.S. 2015/102);

mae i “sefydliad gwirfoddol” yr ystyr a roddir i “relevant voluntary organisation” o fewn ystyr adran 74(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

- (2) At ddibenion y Rhan hon mae gwerth amcangyfrifedig contract i’w ganfod yn unol â rheoliad 6(1) o’r Rheoliadau Contractau Cyhoeddus.

RHAN 4

Y CYNGOR PARTNERIAETH GYMDEITHASOL

Ei sefydlu a’r weithdrefn

32 Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol Cymru

(1) Sefydlir Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol Cymru (“CPG”).

(2) Mae’r CPG i gynnwys yr aelodau a ganlyn—

(a) aelodau o Lywodraeth Cymru (“aelodau Llywodraeth Cymru”),

(b) 9 cynrychiolydd cyflogwyr yng Nghymru (“cynrychiolwyr cyflogwyr”), ac

(c) 9 cynrychiolydd undebau llafur yng Nghymru (“cynrychiolwyr undebau llafur”).

- (3) Mae aelodau Llywodraeth Cymru i gynnwys y Prif Weinidog a, phan wahoddir hwy gan y Prif Weinidog o bryd i'w gilydd –
- (a) unrhyw un neu ragor o Weinidogion eraill Cymru;
 - (b) unrhyw un neu ragor o Ddirprwy Weinidogion Cymru;
 - (c) y Cwnsler Cyffredinol.
- (4) Rhaid i'r Prif Weinidog benodi pob cynrychiolydd cyflogwyr a phob cynrychiolydd undebau llafur (gyda'i gilydd, "aelodau penodedig").
- (5) Rhaid i'r Prif Weinidog gymryd pob cam rhesymol i benodi'r 9 cynrychiolydd cyflogwyr cychwynnol a'r 9 cynrychiolydd undebau llafur cychwynnol o fewn 6 mis gan ddechrau â thrannoeth y diwrnod y daw'r is-adran hon i rym.
- (6) Yn y Ddeddf hon, mae cyfeiriad at "Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol Cymru" neu "CPG" yn gyfeiriad at aelodau'r CPG yn gweithredu ar y cyd; yn unol â hynny, mae swyddogaeth a fynegir fel un o swyddogaethau'r CPG yn swyddogaeth i bob aelod na chaniateir ei harfer ond ar y cyd â'r aelodau eraill.

33 Cynrychiolwyr cyflogwyr

Mae'r cynrychiolwyr cyflogwyr i gynnwys unigolion sy'n cynrychioli cyflogwyr cyrff cyhoeddus, cyflogwyr sector preifat, cyflogwyr sefydliadau gwirfoddol, cyflogwyr addysg uwch a chyflogwyr addysg bellach.

34 Cynrychiolwyr undebau llafur

Mae'r cynrychiolwyr undebau llafur i gynnwys unigolion sy'n cynrychioli undebau a gydnabyddir gan bob math o gyflogwr y cyfeirir ato yn adran 33.

35 Enwebu aelodau penodedig

- (1) Cyn penodi cynrychiolwyr cyflogwyr, rhaid i'r Prif Weinidog geisio enwebiadau gan bersonau neu gyrff y mae'r Prif Weinidog o'r farn eu bod yn cynrychioli barn y categorïau o gyflogwyr y cyfeirir atynt yn adran 33.
- (2) Cyn penodi cynrychiolwyr undebau llafur, rhaid i'r Prif Weinidog geisio enwebiadau gan y corff sy'n cynrychioli undebau llafur yng Nghymru o'r enw TUC Cymru.
- (3) Wrth benodi cynrychiolwyr cyflogwyr neu gynrychiolwyr undebau llafur, rhaid i'r Prif Weinidog roi sylw i unrhyw enwebiadau a wnaed.

36 Cyfnod penodiadau

- (1) Penodir aelodau penodedig am 3 blynedd oni bai –
 - (a) bod y Prif Weinidog yn terfynu'r penodiad drwy hysbysu'r aelod yn ysgrifenedig, neu
 - (b) bod yr aelod penodedig yn ymddiswyddo drwy hysbysu'r Prif Weinidog yn ysgrifenedig.
- (2) Rhaid i'r Prif Weinidog lenwi unrhyw swyddi gwag cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

37 Cyfarfodydd, gweithdrefnau a chymorth gweinyddol

- (1) Rhaid i'r CPG gwrdd o leiaf 3 gwaith ym mhob cyfnod o 12 mis sy'n dechrau â thrannoeth y diwrnod y gwnaeth y Prif Weinidog yr holl benodiadau cychwynnol a grybwyllir yn adran 32.
- (2) Pan fo hynny'n bosibl, rhaid i'r Prif Weinidog gadeirio cyfarfodydd yr CPG.
- (3) Pan nad yw'n bosibl i'r Prif Weinidog gadeirio cyfarfod, rhaid i un o Weinidogion Cymru a enwebwyd gan y Prif Weinidog gadeirio'r cyfarfod.
- (4) O fewn 6 mis gan ddechrau â thrannoeth y diwrnod y daw'r is-adran hon i rym, rhaid i Weinidogion Cymru bennu a chyhoeddi –
 - (a) y cworwm ar gyfer cyfarfodydd yr CPG, a
 - (b) y gweithdrefnau i'w dilyn gan yr CPG, i'r graddau nad ydynt wedi eu pennu yn y Ddeddf hon.
- (5) Rhaid i weithdrefnau'r CPG gynnwys –
 - (a) y gweithdrefnau ar gyfer trefnu cyfarfodydd gan gynnwys y rhybudd sydd i'w roi i'r mynychwyr a sut y caiff mynychwyr ychwanegu eitemau at yr agenda;
 - (b) y weithdrefn ar gyfer datrys anghytuno rhwng aelodau mewn perthynas ag arfer swyddogaethau'r CPG;
 - (c) y gweithdrefnau ar gyfer darparu gwybodaeth a chyngor i Weinidogion Cymru.
- (6) Rhaid i Weinidogion Cymru beri bod cymorth gweinyddol ar gael i'r CPG.

38 Is-grwpiau

- (1) Caiff yr CPG sefydlu is-grwpiau.
- (2) Caiff is-grŵp –
 - (a) cyflawni unrhyw swyddogaeth a ddirprwyir iddo gan yr CPG;
 - (b) cynorthwyo'r CPG i gyflawni ei swyddogaethau mewn unrhyw ffyrdd a bennir gan yr CPG.
- (3) O ran is-grŵp –
 - (a) rhaid i aelod o'r CPG ei gadeirio, a
 - (b) caiff gynnwys aelodau eraill o'r CPG ac unigolion eraill.

39 Is-grŵp caffael

- (1) Rhaid i'r CPG gymryd pob cam rhesymol i sefydlu is-grŵp caffael o fewn chwe mis gan ddechrau â thrannoeth y diwrnod y daw'r is-adran hon i rym.
- (2) Gweler adran 41 am ddarpariaeth bellach ynghylch yr is-grŵp caffael.

*Swyddogaethau***40 Darparu gwybodaeth a chyngor i Weinidogion Cymru**

- (1) Caiff yr CPG ddarparu gwybodaeth a chyngor i Weinidogion Cymru ynghylch y materion a ganlyn—
- 5 (a) y ddyletswydd a osodir ar gyrff cyhoeddus gan adran 1(1);
- (b) cyhoeddi canllawiau o dan adran 1(3)(c);
- (c) y dyletswyddau a osodir ar Weinidogion Cymru gan adran 5.
- (2) Os yw Gweinidogion Cymru yn gofyn am wybodaeth neu gyngor gan yr CPG ar fater y cyfeirir ato yn is-adran (1), rhaid i'r CPG ddarparu'r wybodaeth neu'r cyngor cyn gynted
- 10 ag y bo'n rhesymol ymarferol.

41 Darparu gwybodaeth a chyngor i'r CPG gan yr is-grŵp caffael

- (1) Caiff yr is-grŵp caffael ddarparu gwybodaeth a chyngor i'r CPG ynghylch y swyddogaethau a roddir i awdurdodau contractio a Gweinidogion Cymru o dan Ran 3.
- (2) Caiff yr CPG—
- 15 (a) darparu i Weinidogion Cymru wybodaeth neu gyngor a gafwyd oddi wrth yr is-grŵp caffael, neu
- (b) diwygio gwybodaeth neu gyngor o'r fath a darparu'r wybodaeth neu'r cyngor fel y'i diwygiwyd i Weinidogion Cymru.
- (3) Os yw Gweinidogion Cymru yn gofyn am wybodaeth neu gyngor gan yr CPG ynghylch mater y cyfeirir ato yn is-adran (1), rhaid i'r CPG—
- 20 (a) ceisio'r wybodaeth honno neu'r cyngor hwnnw gan yr is-grŵp caffael, a
- (b) darparu'r wybodaeth neu'r cyngor, neu ddiwygio'r wybodaeth neu'r cyngor a'i darparu neu ei ddarparu fel y'i diwygiwyd, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.
- 25 (4) Os nad oes is-grŵp caffael wedi ei sefydlu eto o dan adran 39(1), caiff yr CPG serch hynny ddarparu gwybodaeth a chyngor i Weinidogion Cymru ynghylch mater y cyfeirir ato yn is-adran (1).

42 Cyhoeddi gwybodaeth a chyngor

Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi gwybodaeth a chyngor a ddarperir gan yr CPG.

*Dehongli***43 Dehongli Rhan 4**

Yn y Rhan hon—

mae i "cyflogwr" yr un ystyr ag "employer" yn Neddf Hawliau Cyflogaeth 1996 (p. 18);

35 ystyr "cyflogwr addysg bellach" ("*further education employer*") yw cyflogwr yn y sector addysg bellach o fewn ystyr adran 91(3) o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 (p. 13);

ystyr “cyflogwr addysg uwch” (“*higher education employer*”) yw cyflogwr yn y sector addysg uwch o fewn ystyr adran 91(5) o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992;

ystyr “cyflogwr corff cyhoeddus” (“*public body employer*”) yw cyflogwr sy’n gorff cyhoeddus;

ystyr “cyflogwr sector preifat” (“*private sector employer*”) yw cyflogwr nad yw –

- (a) yn gorff, yn swydd neu’n ddeiliad swydd y mae ei swyddogaethau’n gyfan gwbl neu’n bennaf o natur gyhoeddus,
- (b) yn gyflogwr sefydliad gwirfoddol,
- (c) yn gyflogwr addysg bellach, na
- (d) yn gyflogwr addysg uwch;

ystyr “cyflogwr sefydliad gwirfoddol” (“*voluntary organisation employer*”) yw cyflogwr sy’n sefydliad gwirfoddol perthnasol o fewn ystyr “*relevant voluntary organisations*” yn adran 74(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006;

ystyr “un o Ddirprwy Weinidogion Cymru” (“*Deputy Welsh Minister*”) yw person sy’n dal swydd o dan adran 50 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

RHAN 5

DARPARIAETHAU TERFYNOL

44 Dehongli cyffredinol

Yn y Ddeddf hon –

ystyr “blwyddyn ariannol” (“*financial year*”) yw –

- (a) mewn perthynas â chorff cyhoeddus heblaw Bwrdd Iechyd Lleol neu ymddiriedolaeth GIG, y cyfnod o 12 mis sy’n gorffen â 31 Mawrth;
- (b) mewn perthynas â Bwrdd Iechyd Lleol, blwyddyn gyfrifyddu o fewn yr ystyr a roddir gan y Gorchymyn a wnaed o dan adran 11 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 (p. 42) sy’n sefydlu’r Bwrdd;
- (c) mewn perthynas ag ymddiriedolaeth GIG, blwyddyn gyfrifyddu o fewn yr ystyr a roddir gan y Gorchymyn a wnaed o dan adran 18 o’r Ddeddf honno sy’n sefydlu’r ymddiriedolaeth;

ystyr “DLICD 2015” (“*the WFGA 2015*”) yw Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 (dccc 2).

45 Dod i rym

- (1) Daw’r Ddeddf hon i rym ar ddiwrnod a bennir gan Weinidogion Cymru drwy orchymyn.
- (2) Caiff gorchymyn o dan is-adran (2) bennu diwrnodau gwahanol at ddibenion gwahanol.
- (3) Mae pŵer Gweinidogion Cymru i wneud gorchymyn o dan is-adran (2) yn arferadwy drwy offeryn statudol.

46 Enw byr

Enw byr y Ddeddf hon yw Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2021.

ATODLEN
(fel y'i cyflwynir gan adran 8)

AWDURDODAU CONTRACTIO

RHAN 1

- 5 AWDURDODAU CONTRACTIO
- 1 Comisiwn y Senedd.
2 Corff cyhoeddus o fewn ystyr DLICD 2015.
3 Comisiynydd y Gymraeg.
4 Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru.
10 5 Comisiynydd Plant Cymru.
6 Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru.
7 Corff llywodraethu sefydliad addysg uwch yng Nghymru.
8 Corff llywodraethu sefydliad addysg bellach yng Nghymru.
9 Gofal Cymdeithasol Cymru.
15 10 Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru.
11 Iechyd a Gofal Digidol Cymru.
12 Awdurdod Cyllid Cymru.
13 Trafnidiaeth Cymru.
14 Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru.
20 15 Landlordiaid cymdeithasol cofrestredig.

RHAN 2

CYMALAU GWEITHLU CYHOEDDUS CYMDEITHASOL: AWDURDODAU SYDD WEDI EU
HESEMPTIO

- 16 Comisiwn y Senedd.
25 17 Comisiynydd y Gymraeg.
18 Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru.
19 Comisiynydd Plant Cymru.
20 Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru.
21 Corff llywodraethu sefydliad addysg uwch yng Nghymru.
30 22 Corff llywodraethu sefydliad addysg bellach yng Nghymru.
23 Landlordiaid cymdeithasol cofrestredig.

RHAN 3

DEHONGLI

- 24 Yn yr Atodlen hon –

- 5
- (a) ystyr “sefydliad addysg bellach” yw sefydliad sy’n dod o fewn adran 91(3) o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992;
 - (b) ystyr “sefydliad addysg uwch” yw sefydliad sy’n dod o fewn adran 91(5) o’r Ddeddf honno;
 - (c) ystyr “landlordiaid cofrestredig cymdeithasol” yw personau sydd wedi eu cofrestru yn y gofrestr a gedwir o dan adran 1 o Ddeddf Tai 1996 (p. 52).